# CYSAG/CYS Cyngor Bro Morgannwg

## Canllaw i ymarferwyr sy'n gwahodd siaradwyr gwadd/darparwyr allanol i ysgolion, ac ar gyfer cynllunio ymweliadau ysgol allanol ar gyfer eu cwricwlwm crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM)

**(Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English)**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| **Adran Un:  Cyflwyniad** | **2** |
| **Adran Dau:  Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) 'Wrthrychol, Feirniadol a Phlwraliaethol'** | **2** |
| **Adran Tri: Cwricwlwm Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)  a Darparwyr Allanol** | **2** |
| **Adran Pedwar: Ymwelwyr â'r Ysgol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)** | **3** |
| **Adran Pump: Paratoi ar gyfer Ymwelwyr â'r Ysgol** | **4** |
| **Adran Chwech: Ymweliadau â Mannau/Adeiladau/Cymunedau Allanol ar gyfer CGM** | **5** |
| **Adran Saith: Cysylltiadau rhanbarthol ar gyfer datblygu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg** | **8** |
| **Adran Wyth: Rhestr Wirio Gryno** | **12** |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Chlerc y CYSAG/CYS, e-bost: **fwright@valeofglamorgan.gov.uk**

**Adran Un: Cyflwyniad**

Yng Nghanllaw CGM y Cwricwlwm i Gymru ar Hwb ceir gwybodaeth am fanteision darparu profiadau dysgu cyfoethog ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM). Mae'r canllaw hwn yn awgrymu'r canlynol:

- Ymgysylltu â chymunedau lleol crefyddol ac anghrefyddol.
- Profi a myfyrio ar ddirgelwch a rhyfeddod y byd naturiol, lleoliadau hanesyddol a safleoedd crefyddol a diwylliannol.
- Arsylwi a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n helpu dysgwyr i ddeall profiadau dynol.
- Ymweld ag addoldai lleol a mannau, tirweddau ac amgylcheddau arbennig eraill, gan gynnwys y rhai sydd â dimensiwn crefyddol ac ysbrydol sylweddol.
- Cwrdd â phobl y mae ffydd a chred yn bwysig iddynt er mwyn helpu dysgwyr i archwilio profiadau bywyd.
- Ymgysylltu â ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol, er enghraifft arweinwyr crefyddol, pobl o ffydd a chred, athronwyr neu addoldai.

**Adran Dau: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) 'Wrthrychol, Feirniadol a Phlwraliaethol'**

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod y gofynion cyfreithiol ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM) yn sylweddol wahanol i'r weithred ddyddiol o gydaddoli (GDdG). **Mae'n bwysig bod holl staff yr ysgol, ymwelwyr a mannau rydych chi'n ymweld â nhw, a phobl neu grwpiau rydych chi'n ymgysylltu â nhw, yn cael eu hysbysu'n llawn o'r gofyniad cyfreithiol i CGM fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol. Rhaid ystyried hyn wrth gynllunio pob profiad dysgu CGM yn ogystal â phan fyddwch yn cynllunio eich darpariaeth cwricwlwm ac addysgu a dysgu CGM. Yn CGM, mae dysgwyr yn 'dysgu am' weithgareddau ffydd a chred, nid ydynt yn 'cymryd rhan' ynddynt.** Yn gyfreithiol, dylai CGM gynnig cyfleoedd i ddysgu am gredoau/arferion/safbwyntiau/gwerthoedd/barn foesegol/credoau athronyddol a byd-olwg pobl eraill, i fyfyrio arnynt ar eu pen eu hunain.

Rhaid i CGM hefyd fodloni'r gofyniad deddfwriaethol i **gynnwys y traddodiadau crefyddol yng Nghymru, sef Cristnogaeth yn bennaf, ond sydd hefyd yn ystyried dysgeidiaeth ac arferion crefyddol y prif grefyddau eraill yng Nghymru, yn ogystal â chredoau athronyddol anghrefyddol.** Mae hyn yn golygu, wrth gynllunio profiadau dysgu, fel ymweliadau ac ymwelwyr, bod yn **rhaid i chi gynnwys ystod o wahanol grefyddau, gwahanol ganghennau/enwadau o fewn crefyddau, ystod amrywiol o grefyddau, credoau ac ystod eang o gredoau athronyddol anghrefyddol**.

**Adran Tri: Cwricwlwm CGM a Darparwyr Allanol**

**Rhaid i ysgolion a lleoliadau gael eu hysbysu'n llawn o'r gofyniad cyfreithiol i fod yn 'wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol' yn eu cwricwlwm, eu haddysgu a'u hasesu mewn CGM.**

**Rhaid i CGM hefyd fodloni'r gofyniad deddfwriaethol i gynnwys y traddodiadau crefyddol yng Nghymru, sef Cristnogaeth yn bennaf, ond sydd hefyd yn ystyried dysgeidiaeth ac arferion crefyddol y prif grefyddau eraill yng Nghymru, yn ogystal â chredoau anghrefyddol.** Mae hyn yn golygu, wrth gynllunio eich cwricwlwm CGM, a'ch addysgu a'ch asesu yn y maes ynghyd â phrofiadau dysgu, fel ymweliadau ac

ymwelwyr, bod yn rhaid i chi gynnwys ystod o wahanol grefyddau, gwahanol ganghennau/enwadau o fewn crefyddau, ystod amrywiol o grefyddau ac ystod eang o gredoau athronyddol anghrefyddol. Mae arweinwyr ysgolion yn gyfreithiol gyfrifol **am sicrhau bod unrhyw ddarparwyr cwricwlwm CGM allanol yn gweithredu o fewn y gofynion cyfreithiol ar gyfer CGM.** Mae'n bwysig **bod ymarferydd/aelod o staff** ysgol yn bresennol **bob amser** gyda'r ymwelydd/siaradwr/darparwr cwricwlwm CGM allanol, a'i fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol hyn i CGM fod yn 'wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol' ac yn gallu sicrhau bod y profiad dysgu'n briodol.

Pan fo ysgol yn defnyddio darparwyr allanol ac yn dirprwyo'r cwricwlwm CGM i asiantaeth, ymarferydd, elusen, sefydliad crefyddol, sefydliad anghrefyddol, ymgynghorydd neu grŵp allanol, rhaid i'r CGM fod yn 'wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol'. **Yn gyfreithiol, ni all y cwricwlwm CGM yn ei gyfanrwydd gynrychioli dim ond un traddodiad crefyddol neu un agwedd/enwad o draddodiad crefyddol.** Mae plwraliaeth yn ofyniad cyfreithiol, ac mae amrywiaeth yn thema drawsbynciol. Dylid ystyried hyn nid yn unig wrth gynllunio ar gyfer profiadau dysgu, ond ym mhob rhan o'ch cwricwlwm, eich addysgu a'ch asesu CGM. Defnyddiwch Hwb i gael gwybodaeth.

**Adran Pedwar: Ymwelwyr â'r Ysgol ar gyfer CGM**

Mae ymwelwyr â'r ysgol yn rhoi cyfle i ddysgwyr glywed profiadau bywyd aelodau o ffydd a chredoau crefyddol ac anghrefyddol o fewn y gymuned. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ystod o grefyddau a chredoau crefyddol/anghrefyddol. Felly, mae ymwelwyr yn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr a phwysig ac mae hyn i'w annog. Mae'n bwysig bod pob ymwelydd, siaradwr gwadd, neu grŵp allanol sy'n cael ei wahodd i'r ysgol yn cyfoethogi arlwy'r cwricwlwm a'r profiadau dysgu. Dylid sicrhau bod amrywiaeth eang o ymwelwyr o wahanol ffydd, crefyddau, credoau, sefydliadau, elusennau yn cael eu gwahodd i adlewyrchu'r blwraliaeth a'r amrywiaeth sy'n bodoli o fewn cred a ffydd.

Mae'n bwysig bod y rhai rydych chi'n eu gwahodd i'r ysgol yn gallu rhannu eu profiad bywyd ac ystyr eu cred, eu ffydd, eu gwerthoedd, eu barn foesegol, neu eu credoau athronyddol iddyn nhw. Gallai eu sgwrs gynnwys rhannu eu profiadau bywyd, trafod sut maent yn ymarfer eu ffydd, beth mae eu ffydd yn ei olygu iddynt a sut mae eu ffydd yn dylanwadu ar eu bywydau. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn rhoi'r wybodaeth o'r profiad dysgu hwn mewn cyd-destun i'r dysgwyr, cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad.

Gall yr ymwelwyr hyn fynegi sut mae eu ffydd/cred yn iawn, ac yn ystyrlon iddynt, tra hefyd yn cydnabod a pharchu y gall eraill weld pethau'n wahanol a dal safbwynt cyferbyniol hyd yn oed os nad ydynt yn ei gefnogi, gan barchu y gall fod amrywiaeth o safbwyntiau.

Gall ymwelwyr eraill fod yn gynrychiolwyr sefydliad neu elusen a bod yno i siarad am waith yr elusen/sefydliad a sut mae gwaith y sefydliad/elusen yn cael ei ysbrydoli a'i siapio gan eu crefydd/ffydd/credoau.

Felly, gwnewch yn siŵr bod yr ymwelydd/sefydliad yn ymwybodol nad yw'r siaradwr sy'n ymweld â'r ysgol yno i wthio syniadau ar ddysgwyr yn ystod CGM, ond i gyflwyno ei gredoau, ei arferion, ei werthoedd a'i brofiadau bywyd trwy ei lens ei hun. Bydd gofyn i ymarferwyr ddarparu'r cyd-destun a datblygu sgiliau'r dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol ac yn wrthrychol â'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i rhannu.

Mae ymwelwyr posibl ar gyfer ymweliadau CGM yn cynnwys credinwyr crefyddol, arweinwyr ffydd, sefydliadau ffydd, elusennau, dyneiddwyr, anffyddwyr, agnostigiaid ac eraill. Mae rhai dolenni at sefydliadau posibl ar gael ar ddiwedd y canllaw hwn.

**Adran Pump: Paratoi ar gyfer Ymwelwyr â'r Ysgol**

Fel ymweliadau, mae angen cynllunio gofalus o ran trefnu i ymwelwyr gyfrannu at CGM neu gydaddoli. Bydd y meini prawf a'r cynnwys ar gyfer cyfraniadau ymwelwyr yn wahanol ar gyfer cydaddoli i'r rhai ar gyfer CGM. **Mae'n bwysig bod yr ysgol a'r ymwelydd yn deall y gwahaniaeth hwn gan y gellir tynnu dysgwyr o'r weithred ddyddiol o gydaddoli (GDdG) ac nid o wersi CGM. O ganlyniad, rhaid i bob gwers CGM fod yn gyfreithiol wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol. Rhaid ystyried hyn wrth ddewis ymwelydd/darparwr allanol.**

**Dewis Ymwelydd**

Gallai ymwelwyr gynnwys:

- Arweinwyr cymunedau ffydd/anghrefyddol.
- Aelodau o gymunedau ffydd/anghrefyddol.
- Aelodau â safbwyntiau a gwerthoedd anghrefyddol, e.e. Humanists UK.
- Aelodau o sefydliadau lleol.
- Elusennau neu asiantaethau cymorth.
- Pobl sydd wedi ymweld â gwlad sydd ag arwyddocâd crefyddol neu foesol yn ddiweddar.
- Ymwelwyr rhyngwladol.

**Cynllunio'r Ymweliad**

Gwnewch yn siŵr bod yr ymwelydd yn cael cyfarwyddyd am y canlynol:

- Diben yr ymweliad.
- Oedran/cyfnod dysgu a gallu'r dysgwyr.
- Yr amser a neilltuwyd ar gyfer yr ymweliad a'r hyn rydych chi'n gobeithio y bydd yn cael ei gyflawni yn ystod yr amser a roddwyd.
- Cyfarwyddiadau teithio a chynllun campws yr ysgol.
- Y polisi amddiffyn plant a manylion y swyddog diogelu.
- 'Polisi Iechyd a Diogelwch' yr ysgol/lleoliad/awdurdod lleol.
- Gwnewch yn siŵr bod yr ymwelydd yn ymwybodol na ddylid defnyddio'r ymweliad ysgol i wthio ei farn bersonol ar ddysgwyr. Rhaid i'r siaradwr beidio â difenwi crefyddau, systemau cred neu sefydliadau eraill i hyrwyddo ei rai ei hun.

Gall ymwelwyr o dramor ddod o wledydd lle gall disgwyliadau a phrofiadau addysgol fod yn wahanol. Os na fydd cyfarwyddyd uniongyrchol yn bosibl ymlaen llaw, mae'n bwysig bod cyswllt lleol dibynadwy yn cael ei gynnwys sy'n gyfarwydd â'r Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau a deddfwriaeth CGM mewn ysgolion yng Nghymru ac sy'n gallu eu hesbonio. Cyfrifoldeb yr ymarferydd/ysgol yw gwneud yr hyn y gall ei wneud i sicrhau bod yr ymwelydd yn debygol o gynnig y profiad o'r ansawdd gorau rydych chi a'r dysgwyr yn ei ddisgwyl. Yn ddelfrydol, dylid cwrdd â'r ymwelydd yn bersonol neu ar blatfform rhithwir cyn yr ymweliad. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch am gyngor gan aelod dibynadwy o'r gymuned neu'r sefydliad cysylltiedig.

**Paratoi Dysgwyr ar gyfer Ymwelwyr â Gwers CGM**

Paratowch y dysgwyr fel bod yr ymweliad yn cael ei ddeall yn ei gyd-destun:

- Trafodwch gyda'r ymwelydd lle mae ei gyfraniad yn cyd-fynd â chynllun cyffredinol y cwricwlwm.
- Anogwch y dysgwyr i baratoi cwestiynau i'w gofyn i'r ymwelydd.
- Atgoffwch y dosbarth am ymddwyn yn barchus tuag at ymwelwyr ac unrhyw arteffactau/adnoddau y gallent eu defnyddio.

**Diwrnod yr Ymweliad**
• Cynlluniwch y diwrnod yn ofalus i roi digon o amser i wneud unrhyw baratoadau, e.e. trefnu'r ystafell ddosbarth, gosod offer ac ati.
• Trefnwch i le parcio car gael ei gadw (os oes angen), ac i berson dynodedig gwrdd â'r ymwelydd wrth gyrraedd, i gynnig lluniaeth neu gyfleusterau toiled yn ôl yr angen.
• Rhaid i'r ymarferydd aros yn yr ystafell ddosbarth yn ystod y wers; mae angen i'r ymarferydd reoli'r sesiwn a gall annog y dysgwyr neu'r siaradwr i sicrhau bod y drafodaeth yn berthnasol a bod amcanion yr ymweliad yn cael eu cyflawni.
• Ar ddiwedd y sesiwn, diolchwch i'r ymwelydd a gwnewch yn siŵr ei fod yn cael ei hebrwng i'r dderbynfa i allgofnodi ac fel y gall adael y safle yn ddiogel.
• Byddai llythyr/e-bost dilynol gan yr ymarferydd a'r dysgwyr yn cael ei werthfawrogi.

**Pwyntiau Cyffredinol**

- Argymhellir cadw cofnodion gofalus o'r holl ymwelwyr – nodwch y rhifau ffôn, y cyfeiriadau a sut aeth yr ymweliad. Cofiwch rannu unrhyw bwynt o ddiddordeb ag ymarferwyr CGM eraill drwy eich clerc CYSAG/CYS.
- Efallai yr hoffech dynnu lluniau o'r sesiwn neu hyd yn oed wneud fideo (gyda chaniatâd GDPR), a dylid anfon hyn ymlaen at eich clerc CYSAG/CYS lleol i rannu a dathlu'r CGM sy'n digwydd mewn ysgolion yn ein Hawdurdod Lleol. Gwnewch yn siŵr yr ymgynghorir â’r ymwelydd ymlaen llaw ynglŷn â'r mater hwn.

**Adran Chwech: Ymweliadau â Mannau/Adeiladau/Cymunedau Allanol ar gyfer CGM**

Mae ymweliadau’n rhoi cyfle i ddysgwyr weld profiadau bywyd aelodau o ffydd a chredoau crefyddol ac anghrefyddol o fewn y gymuned. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ystod o ffydd a chredoau a'r amrywiaeth sy'n bodoli ynddynt a rhyngddynt.

Mae lleoliadau posibl ar gyfer ymweliadau CGM yn cynnwys mannau crefyddol ac anghrefyddol o ddiddordeb, fel mannau pererindod, addoldai, arddangosfeydd, amgueddfeydd, mannau o arwyddocâd naturiol a gwyliau.

Dylai ymweliadau bob amser ddilyn yr un canllaw ag ymwelwyr â'r ysgol mewn perthynas â CGM. Dylai ymweliadau gynnwys dysgu am gredoau, arferion, gwerthoedd, barn foesegol a chredoau athronyddol. Yn ystod ymweliadau, gall y siaradwr/tywysydd siarad am ei gymuned, ei adeilad, ei gredoau, ei arferion, ei werthoedd, ei waith neu ei brofiadau bywyd, sut mae'n ymarfer ei ffydd, beth mae ei ffydd yn ei olygu iddo a sut mae ei ffydd yn dylanwadu ar ei fywyd. Felly, gwnewch yn siŵr bod y siaradwr yn ymwybodol nad yw yno i gyflwyno ei gredoau, ei arferion, ei fannau cysegredig, ei werthoedd na’i brofiadau bywyd na rhai ei gymuned trwy ei lens ei hun na lens ei gymuned. Bydd gofyn i ymarferwyr ddarparu'r cyd-destun a datblygu sgiliau’r dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol ac yn wrthrychol â'r wybodaeth sy’n cael ei chyflwyno a’i rhannu cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad.

Pethau ychwanegol i'w hystyried wrth drefnu a rheoli ymweliadau ar gyfer CGM, y gallai fod angen i chi eu rhannu â dysgwyr/rhieni/gwarcheidwaid/gofalwyr cyn yr ymweliad:

- Cod gwisg – dylid paratoi dysgwyr ac ymarferwyr ymlaen llaw; gallai fod cod gwisg gan rai mannau, e.e. gwisgo gorchudd pen, gorchuddio breichiau/coesau is neu dynnu esgidiau.
- Ymddygiad - mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol y byddai'n cael ei ystyried yn amharchus i fwyta, yfed, crwydro o gwmpas neu gyffwrdd ag arteffactau heb wahoddiad neu oruchwyliaeth.

- Staffio - gall rhai mannau fod â chymarebau ac anghenion staffio penodol. Dylid ystyried hyn cyn yr ymweliad.
- Mae symud yn dawel ac yn barchus yn hanfodol mewn rhai mannau, e.e. addoldai, gan y gallai darfu ar weddi breifat.

**Paratoi ar gyfer Ymweliadau â Mannau/Adeiladau/Cymunedau Allanol**

Argymhellir hysbysu neu geisio gwybodaeth gan y man allanol yr ymwelir ag ef neu'r siaradwr cyn yr ymweliad er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd dysgu i'r holl ddysgwyr.

**Arweiniad Ymarferol ar gyfer Cynllunio Ymweliad**

**Paratoi**

- Rhaid i amcan yr ymweliad fod yn glir.
- Mae'r ymarferydd i nodi diben yr ymweliad, a'r hyn y disgwylir i'r dysgwyr ei ennill o'r profiad.
- Rhaid i'r profiad a'r hygyrchedd fod yn addas ac yn gynhwysol i'r holl ddysgwyr.
- Dylid cyfathrebu'r amcanion i'r gymuned/adeilad/man yr ymwelir ag ef, fel y gall y paratoadau fod yn briodol. Bydd gan rai cymunedau bobl a all gymryd rhan weithredol yn yr ymweliad; efallai y bydd eraill yn llai hyderus ynglŷn â gwneud hynny neu efallai na fyddant yn ymwybodol o'r hyn fyddai'n briodol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru, CGM a'r gofyniad cyfreithiol i sicrhau bod CGM yn 'wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol'. Gwnewch yn siŵr bod y potensial ar gyfer cymryd rhan yn cael ei gadarnhau a'i drafod ymlaen llaw.
- Anogir dysgwyr i greu eu cwestiynau eu hunain yr hoffent gael ateb iddynt yn ystod yr ymweliad.
- Rhannwch fanylion oedran a chyfnod dysgu a gallu'r dysgwyr.
- Trefnwch yr amser a gaiff ei neilltuo ar gyfer yr ymweliad.
- Gwiriwch am gyfarwyddiadau teithio a pharcio.
- Gofynnwch am gynllun o'r adeilad/man.
- Rhowch drosolwg i'r man/person o ddiben yr ymweliad ysgol o safbwynt yr ysgol/lleoliad.
- Rhowch drosolwg o wybodaeth a dysgu blaenorol y dysgwyr yng nghyd-destun yr uned waith (os ydych chi'n darparu tywysydd/siaradwr gwadd).
- Rhowch fewnwelediad i sut mae'r ymweliad â'r man/adeilad/cymuned yn cyd-fynd â'r cynllun cyffredinol o waith/uned/pwnc/ymholiad/cwestiwn mawr.
- Gwiriwch a sicrhewch fod y man/adeilad/cymuned yr ymwelir â hi'n ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol ar gyfer sicrhau bod CGM yn 'wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol'.
- Dylai'r ysgol/lleoliad gynnal ymweliad ymlaen llaw i wirio'r holl fanylion, i lenwi asesiad risg ac i baratoi'n llawn ar gyfer yr ymweliad ysgol/lleoliad.

**Ymweliad ymlaen llaw**

- Argymhellir ymweliad ymlaen llaw. Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn gyfarwydd â'r lleoliad a'r aelodau o'r gymuned a fydd yn croesawu'r ymweliad.
- Yn ystod yr ymweliad hwn, gall ymarferwyr nodi eitemau o ddiddordeb penodol fel y gellir paratoi gweithgareddau neu lwybrau ar gyfer y dysgwyr ymlaen llaw.
- Cynhaliwch asesiad risg yn unol â pholisi'r ysgol a'r Awdurdod Lleol.
- Cod gwisg – dylid paratoi dysgwyr ac ymarferwyr ymlaen llaw y gallai fod cod gwisg gan rai mannau e.e. gwisgo gorchudd pen a thynnu esgidiau.
- Staffio - gall rhai mannau fod â chymarebau ac anghenion staffio penodol. Dylid ystyried hyn cyn yr ymweliad.

- Ymddygiad - mae angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol y byddai'n cael ei ystyried yn amharchus i fwyta, yfed, crwydro o gwmpas neu gyffwrdd ag arteffactau heb wahoddiad.
- Mae symud yn dawel ac yn barchus yn hanfodol mewn rhai mannau, e.e. addoldai, gan y gallai darfu ar weddi breifat.

**Yr Ymweliad**

Dylai ymarferwyr sicrhau:

- Bod dysgwyr yn cael y cyfle i fyfyrio ar a phrofi'r awyrgylch.
- Bod dysgwyr yn gyfranogwyr gweithredol yn ystod yr ymweliad. Dylid eu hannog i
- Ymchwilio a darganfod pethau drostynt eu hunain.
- Y gall yr ymweliad fod yn brofiad amlsynhwyraidd - ystyriwch yr effaith bosibl ar ddysgwyr sydd â her synhwyraidd.
- Bod dysgwyr yn cael eu goruchwylio'n ddigonol drwy'r amser.
- Bod yr asesiad risg a'r holl waith papur gofynnol (slipiau caniatâd, anghenion meddygol, cofrestrau ac ati) wrth law.
- Bod dysgwyr yn cael eu hannog i barhau i ganolbwyntio wrth ddarganfod ac archwilio.
- Bod dysgwyr yn cael eu hannog i gofnodi eu dysgu a'u profiad.

**Gwaith Dilynol**

- Yn ystod gwaith dilynol, bydd dysgwyr yn cael cyfle i ganolbwyntio ar agweddau ar yr hyn y maent wedi'i brofi.
- Bydd dysgwyr yn archwilio ymhellach gwestiynau y maent wedi'u creu o'r ymweliad.
- Gall dysgwyr ymchwilio'n annibynnol i ddatblygu gwybodaeth bellach gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau.
- Gallant fynegi eu syniadau trwy gyflwyniadau, trafodaethau, cerddoriaeth a dawns, celf a chrefft, chwarae rôl, barddoniaeth a rhyddiaith. Gallent hefyd rannu eu profiadau ag eraill drwy wasanaeth ysgol, CYSAG/CYS Ieuenctid, podlediadau, blogiau fideo ac ati.
- Gallant fynegi eu diolch a'u diolchgarwch i'r adeilad/man/cymuned a wnaeth eu croesawu a rhoi rhywfaint o adborth personol ar eu dysgu, eu profiad a'r effaith ar eu dysgu.

**Posibiliadau Creadigol ar gyfer Paratoi neu Waith Dilynol**

- Gallai aelod o'r gymuned sydd â phrofiad o blant a phobl ifanc siarad â'r dysgwyr o ddealltwriaeth uniongyrchol am arteffactau, gwrthrychau, credoau, gwerthoedd neu foeseg allweddol.
- Efallai y bydd aelodau yn barod i gael cyfweliad gyda’r ymarferydd am y profiad personol sydd ganddynt o fod yn rhan o'u cymuned.
- Gallai dysgwyr greu ffilm am yr ymweliad/ymwelydd a'i gymuned (os yw'n briodol).
- Gellid defnyddio celf, cerddoriaeth a drama i ail-adrodd straeon, deall bywydau a hanes cymunedau, a sut maent yn ymwneud â'u bywydau bob dydd.
- Mae gan rai cymunedau gysylltiadau cryf â grwpiau tebyg ledled y byd. Er enghraifft, mae rhai eglwysi yng Nghymru yn cymryd rhan mewn ymweliadau cyfnewid ag eglwysi/cymunedau byd-eang. Gan fod y cyfnewidiadau hyn yn aml yn cynnwys cymysgedd o weithgareddau cymdeithasol ac ysbrydol, gallai archwilio'r ymweliadau hyn agor maes astudio ehangach sy'n edrych ar sut mae ffydd yn dylanwadu ar ffordd o fyw.
- Efallai y bydd rhai cymunedau crefyddol ac anghrefyddol yn barod i ddangos seremonïau defod bywyd, e.e. genedigaeth, dod yn oedolyn, priodasau.

**Gwerthuso'r Ymweliad**

Argymhellir bod yr ysgol/lleoliad yn cofnodi ac yn gwerthuso'r ymweliad ac yn rhannu manylion â'ch CYSAG/CYS lleol trwy'r clerc (gwelwch yr e-bost ar ddiwedd y ddogfen hon) i gynorthwyo wrth drefnu eich ymweliadau eich hun yn y dyfodol ac er budd ysgolion eraill.

Dylai gwerthusiadau gynnwys llais y **dysgwyr** a'r **ymarferydd**.

Rhai pethau posibl i'w hystyried yn y gwerthusiad:

- Y pwynt cyswllt.
- Asesiad risg - a oes angen unrhyw addasiadau?
- A oedd eu taflenni gwaith / cyflwyniadau PowerPoint / adnoddau ac ati ar gael ac yn briodol?
- Beth oedd eich amcan dysgu/diben yr ymweliad? A wnaethoch chi gyflawni hyn/rhain?
- Faint o ddysgwyr aeth gyda chi? Pa oedran/cyfnod? A oedd yn briodol i'w hoedran/cyfnod dysgu?
- Beth oedd y gymhareb staff a ddisgwyliwyd?
- Pa mor hir oedd yr ymweliad? A oedd yn iawn fwy neu lai?
- Beth aeth yn dda?/Gwell byth os
- Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i rywun arall sy'n cynllunio ymweliad yno?
- A fyddech chi'n argymell y daith hon i ymarferwyr eraill? Pam?

**Adran Saith: Cysylltiadau Rhanbarthol ar gyfer Datblygu CGM**

Wrth ymchwilio i gysylltiadau cymunedol, cenedlaethol neu ryngwladol ar gyfer CGM, dylech **bob amser** fod yn ymwybodol o ofynion 'gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol'. Dylech bob amser wneud eich ymchwil eich hun. Efallai y bydd gan eich CYSAG/CYS lleol gysylltiadau ychwanegol ar gyfer cynrychiolwyr ffydd/cred lleol. Cysylltwch â Chlerc y CYSAG/CYS i gael gwybod mwy.

Mae'r defnydd o ymweliadau, ymwelwyr a siaradwyr gwadd yn ychwanegu dimensiwn arall at CGM drwy roi cyfle i ddysgwyr brofi credoau athronyddol crefyddol ac anghrefyddol fel rhan fyw o'r gymuned. Mae lleoliadau posibl ar gyfer ymweliadau CGM yn cynnwys mannau crefyddol ac anghrefyddol o ddiddordeb, e.e. mannau pererindod, addoldai, arddangosfeydd, amgueddfeydd, mannau o arwyddocâd naturiol a gwyliau (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr).

Isod mae rhestr o ymweliadau neu sefydliadau posibl a allai ddarparu ymwelwyr. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Bydd llawer o rai eraill a all ddarparu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiadau bywyd/byw gwerthfawr hefyd.

Sylwch y gall rhai o'r dolenni yn y ddogfen hon dorri neu ddyddio dros amser ac felly efallai y bydd angen ymchwil bersonol.

**<u>Ymwadiad - nid yw unrhyw enwau na manylion cyswllt ar gyfer addoldai neu gynrychiolwyr cymunedau ffydd a nodir yma wedi eu hardystio ac nid ydynt yn cael eu hyrwyddo gan yr awdurdod lleol, y CYSAG/CYS na Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD). Mae ysgolion yn gyfrifol am benderfynu ar addasrwydd.</u>**

**Ardal Bro Morgannwg**

Eglwys Gatholig Sant Cadog, Y Bont-faen
https://rcadc.org/st-cadoc-cowbridge/

Catholigion Gorllewin y Fro
https://westvalecatholics.org.uk/

Eglwysi Dwyrain y Fro
https://www.eastvalechurches.org.uk/

Eglwysi Porthceri, Y Rhws a Phen-marc
**https://porthkerryandrhoose.co.uk/**

Eglwys yr Holl Saint, Y Barri
https://beneficeofbarry.com/our-churches/all-saints/

Eglwysi'r Bont-faen
https://www.cowbridgeparish.com/churches/

Eglwys Fair, Tresimwn
http://bonvilstonvillage.co.uk/StMarys/StMarys.html

Eglwys Bedyddwyr Bethel, Llanilltud Fawr
https://www.bethel-llantwit.org.uk/

Eglwys Fethodistaidd Sain Tathan
Dim gwefan

Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Y Bont-faen
https://www.cowbridgeunitedfreechurch.org.uk/

Neuadd y Deyrnas Tystion Jehofa, Llanilltud Fawr
https://www.jw.org/en/

Mosg y Barri (Masjid)
Dim gwefan

**Ardal Caerdydd**

Eglwys Gadeiriol Llandaf

Yr Archesgobaeth Gatholig
https://rcadc.org/

Eglwys y Forwyn Fair, Caerdydd

'Teithiau Cerdded Ffydd' Butetown, Caerdydd

Yr Eglwys Uniongred Roegaidd, Caerdydd

Shul Caerdydd

Synagog Diwygiedig Caerdydd

Cyn-Synagog (Sefydliad y Ganolfan Treftadaeth Iddewig) Merthyr Tudful, CF47 0ER

Mandir/Teml Shree Swaminarayan, Caerdydd

Ty Krishna, Cymru

The Atma Lounge, Caerdydd

Gwrdwara Sri Dasmais Singh Sabha Caerdydd
97 Stryd Tudur, Caerdydd CF11 6AE, 029 2022 4806

Canolfan Islamaidd De Cymru, Caerdydd
Stryd Alice, Caerdydd CF10 5LB

Mosg Dar-ul-Isra, Caerdydd
Neuadd y Sgowtiaid, 21-23 Wyeverne Road, Caerdydd CF24 4BG

Canolfan Fwdhaidd, Caerdydd

**Cysylltiadau cenedlaethol ar gyfer datblygu CGM**

Gwefan Addysg yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys eu Canllaw ar gyfer CGM

Y Gwasanaeth Addysg Gatholig – Cymru

Eglwys Gadeiriol Tyddewi, Sir Benfro

Abaty Belmont, Swydd Henffordd

Skanda Vale, Sir Gaerfyrddin

Mae Skanda Vale yn fan lle gall pobl o wahanol gefndiroedd a chrefyddau fyw, gweithio ac addoli gyda'i gilydd yn gytûn, mewn amgylchedd naturiol hardd.

Safleoedd pererindod yng Nghymru
https://sacredsiteswales.co.uk/sacred_sites_wales/

https://undiscovered-wales.co.uk/2020/05/13/holier-than-thou-the-welsh-pilgrimage-and-why-2020-might-be-the-time-to-make-one-to-wales/

http://www.penrhyspilgrimageway.wales/cym/

Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru
Yn llawn gwybodaeth ac adnoddau gwych i gefnogi CGM gyda llawer o botensial ar draws a thu hwnt i'r maes dysgu a phrofiad Dyniaethau

[Canolfan Treftadaeth Iddewig Genedlaethol Cymru (a fydd yn agor yn 2024)]

[Dyneiddwyr Cymru]

**Cysylltiadau yn y DU ar gyfer datblygu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)**

[Eglwys Gadeiriol St Paul, Llundain]

[Eglwys Gadeiriol Westminster, Llundain]

[Eglwys Gadeiriol Fetropolitan Lerpwl, Lerpwl]

[BAPS Mandir Shri Swaminarayan, Llundain (Teml Neasden)]

[Maenor Bhaktivedanta – Teml Hare Krishna, Watford,]

[Baha'i Bryste, Bryste]

[Yr Amgueddfa Iddewig, Llundain]

[Yr Amgueddfa Ryfel Imperial, Llundain (Orielau'r Holocost)]

[Ymddiriedolaeth Mosg Canolog Llundain a'r Ganolfan Ddiwylliannol Islamaidd, Llundain]

[Ymddiriedolaeth Pererindod Prydain]

[Historic England – 100 Places: Faith and Belief]

[Understanding Humanism – gwefan i ymarferwyr]

Os oes angen diweddaru unrhyw fanylion cysylltiadau yn y canllaw hwn, rhowch wybod i glerc y CYSAG/CYS fel y gellir cadw'r canllaw hwn mor gyfredol â phosibl er budd pawb sy'n ei ddefnyddio.

**Adran Wyth: Rhestr Wirio Gryno**

**Adran Un -**

- ✓ Ymgysylltwch â chymunedau crefyddol ac anghrefyddol lleol, cenedlaethol a byd-eang
- ✓ Ymwelwch ag addoldai lleol a mannau, tirweddau ac amgylcheddau arbennig eraill, gan gynnwys y rhai sydd â dimensiwn crefyddol ac ysbrydol sylweddol.
- ✓ Cynlluniwch i ddysgwyr gwrdd â phobl y mae ffydd a chred yn bwysig iddynt er mwyn helpu dysgwyr i archwilio profiadau bywyd a byw.
- ✗ Dylid osgoi dull gwerslyfr 'un stori' o ymdrin â chrefyddau, ffydd a chredoau.
- ✗ Dylid osgoi ymweliadau ac ymwelwyr oherwydd ofn neu ddiffyg hyder.

**Adran Dau - Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) 'Wrthrychol, Feirniadol a Phlwraliaethol'**

- ✓ Mae'r holl staff ysgol, ymwelwyr a mannau rydych chi'n ymweld â nhw, a phobl neu grwpiau rydych chi'n ymgysylltu â nhw, yn cael eu hysbysu'n llawn o'r gofyniad cyfreithiol i CGM fod yn 'wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol'.
- ✓ Dylid sicrhau bod dysgwyr yn 'dysgu am' yn hytrach na 'chymryd rhan mewn'.
- ✓ Dylid cynnwys ystod o gyfleoedd i ddysgwyr archwilio gwahanol grefyddau, gwahanol ganghennau/enwadau o fewn crefyddau, ystod amrywiol o grefyddau, credoau ac ystod eang o gredoau athronyddol anghrefyddol.
- × Peidiwch â gadael y siaradwr gwadd ar ei ben ei hun gyda'r dysgwyr neu'r dysgwyr ar eu pen eu hunain gyda thywysydd mewn man maent yn ymweld ag ef. Efallai y bydd angen i ymarferwyr egluro neu roi esboniadau/sylwadau ychwanegol.

**Adran Tri: Cwricwlwm CGM a Darparwyr Allanol**

- ✓ Rhaid i ysgolion a lleoliadau gael eu hysbysu'n llawn o'r gofyniad cyfreithiol i fod yn 'wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol' yn eu cwricwlwm, eu haddysgu a'u hasesu CGM.
- ✓ Rhaid i CGM fodloni'r gofyniad deddfwriaethol i gynnwys y traddodiadau crefyddol yng Nghymru, sef Cristnogaeth yn bennaf, ond sydd hefyd yn ystyried dysgeidiaeth ac arferion crefyddol y prif grefyddau eraill yng Nghymru, yn ogystal â chredoau anghrefyddol.
- ✓ Mae'n bwysig **bod ymarferydd/aelod o staff** ysgol yn bresennol **bob amser** gyda'r ymwelydd/siaradwr/darparwr cwricwlwm CGM allanol, a'i fod yn ymwybodol o'r gofynion cyfreithiol hyn i CGM fod yn wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol ac yn gallu sicrhau bod y profiad dysgu'n briodol.
- × Pan fo ysgol yn defnyddio darparwyr allanol ac yn dirprwyo'r cwricwlwm CGM i asiantaeth, ymarferydd, elusen, sefydliad crefyddol, sefydliad anghrefyddol, ymgynghorydd neu grŵp allanol, rhaid i'r CGM fod yn 'wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol'. **Yn gyfreithiol, ni all y cwricwlwm CGM yn ei gyfanrwydd gynrychioli dim ond un traddodiad crefyddol neu un agwedd/enwad o draddodiad crefyddol.**

**Adran Pedwar: Ymwelwyr â'r Ysgol ar gyfer CGM**

- ✓ Dylid sicrhau bod amrywiaeth eang o ymwelwyr o wahanol ffydd, crefyddau, credoau, sefydliadau, elusennau yn cael eu gwahodd i adlewyrchu'r blwraliaeth a'r amrywiaeth sy'n bodoli o fewn cred a ffydd. Gallai eu sgwrs gynnwys rhannu eu profiadau bywyd, trafod sut maent yn ymarfer eu ffydd, beth mae eu ffydd yn ei olygu iddynt a sut mae eu ffydd yn dylanwadu ar eu bywydau.
- ✓ Mae'n bwysig bod ymarferwyr yn rhoi'r wybodaeth o'r profiad dysgu hwn mewn cyd-destun i'r dysgwyr, cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad.
- ✓ Mae ymwelwyr yno i gyflwyno eu credoau, eu harferion, eu gwerthoedd a'u profiadau bywyd trwy eu lens eu hunain.
- ✓ Mae ymarferwyr i ddarparu'r cyd-destun ac i ddatblygu sgiliau'r dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol ac yn wrthrychol â'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i rhannu.
- × Nid yw'r siaradwr gwadd yno i wthio syniadau ar ddysgwyr yn ystod CGM.

**Adran Chwech: Ymweliadau â Mannau/Adeiladau/Cymunedau Allanol ar gyfer CGM**

- ✓ Dylid cynllunio cyfleoedd i ddysgwyr weld profiadau bywyd aelodau o ffydd a chredoau crefyddol ac anghrefyddol o fewn y gymuned. Dylid cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am ystod o ffydd a chredoau a'r amrywiaeth sy'n bodoli ynddynt a rhyngddynt.

- ✓ Mae lleoliadau posibl ar gyfer ymweliadau CGM yn cynnwys mannau crefyddol ac anghrefyddol o ddiddordeb, fel mannau pererindod, addoldai, arddangosfeydd, amgueddfeydd, mannau o arwyddocâd naturiol a gwyliau.
- ✓ Dylai ymweliadau bob amser ddilyn yr un canllaw ag ymwelwyr â'r ysgol mewn perthynas â CGM.
- ✓ Dylai ymweliadau gynnwys dysgu am gredoau, arferion, gwerthoedd, barn foesegol a chredoau athronyddol. Yn ystod ymweliadau, gall y siaradwr/tywysydd siarad am ei gymuned, ei adeilad, ei gredoau, ei arferion, ei werthoedd, ei waith neu ei brofiadau bywyd, sut mae'n ymarfer ei ffydd, beth mae ei ffydd yn ei olygu iddo a sut mae ei ffydd yn dylanwadu ar ei fywyd.
- ✓ Bydd gofyn i ymarferwyr ddarparu'r cyd-destun a datblygu sgiliau'r dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol ac yn wrthrychol â'r wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno a'i rhannu cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad. Ni ddylid gadael dysgwyr ar eu pen eu hunain.
- ✓ Dylid ystyried - cod gwisg, ymddygiad, gwaith papur asesiad risg yr Awdurdod Lleol, staffio, bod yn barchus at addolwyr/credinwyr/ymwelwyr eraill.
- ✗ Peidiwch â gadael dysgwyr ar eu pennau eu hunain.

**Adran Saith: Cysylltiadau Rhanbarthol ar gyfer Datblygu CGM**

- ✓ Gwnewch eich ymchwil eich hun a pharatoi'n llawn gyda'r gymuned leol ac addoldai/mannau o ddiddordeb ysbrydol.
- ✓ Cysylltwch â Chlerc y CYSAG/CYS i ofyn am gymorth gydag ymwelwyr ac ymweliadau CGM lleol.
- ✓ Rhannwch brofiadau cadarnhaol o ymweliadau ac ymwelwyr gyda'r CYSAG/CYS i'w rhannu ag ysgolion/lleoliadau eraill. Gall y CYSAG/CYS ddiweddaru'r rhestrau awgrymiadau rhanbarthol.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Chlerc y CYSAG/CYS, e-bost:
**fwright@valeofglamorgan.gov.uk**